Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Penllwyn

Y Cabin
Penllwyn
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3LP

Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2025

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

a

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Cylch Meithrin Penllwyn

| | |
|---|---|
| Enw’r lleoliad | Cylch Meithrin Penllwyn |
| Categori’r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | Cylch Meithrin Penllwyn |
| Unigolyn cyfrifol (os yw’n berthnasol) | |
| Person â gofal | Angharad Rennie-Davies |
| Nifer y lleoedd | 19 |
| Ystod oedran y plant | 2 – 4 mlwydd oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 9 |
| Nifer y plant sy’n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 5 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i Dydd Gwener<br>8.30 – 15.00 |
| Gwasanaeth Dechrau’n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw’r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn rhagweld, yn adnabod, ac yn bodloni anghenion iaith a diwylliant Cymru pobl sy'n defnyddio, neu a allai ddefnyddio'r gwasanaeth. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 16 Mai 2022 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 22 Ionawr 2018 |
| Dyddiadau’r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 11/11/2025 |
| Gwybodaeth ychwanegol | |

# Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1. Datblygu mwy o gyfleoedd i blant ddysgu am y byd ehangach, ac amrywiaeth o diwylliannau eraill.

A2. Sicrhau bod ymarferwyr yn rhoi digon o gyfleoedd ac amser i blant ddatrys problemau'n annibynnol cyn cynnig cefnogaeth neu arweiniad.

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

### Lles: Da

Mae bron pob plentyn yn hapus ac yn fodlon yn y lleoliad. Maent yn ymgartrefu ac ymdopi'n dda wrth adael eu rhieni ar ddechrau'r sesiwn. Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud penderfyniadau drostynt eu hunain yn llwyddiannus ac yn dewis sut maent yn treulio'u hamser yn effeithiol. Maent yn symud o gwmpas yr ardaloedd dysgu yn rhwydd a hyderus. Mae hyn yn eu galluogi i ddilyn eu diddordebau ac i gymryd rhan mewn profiadau dysgu a chwarae yn eu hamser eu hunain yn llwyddiannus.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn mynegi eu hunain yn hyderus wrth rannu syniadau ac ateb cwestiynau syml. Maent yn awyddus i rannu eu profiadau gydag ymarferwyr gan wybod y byddant yn gwerthfawrogi'r hyn sydd ganddynt i'w ddweud. O ganlyniad, mae bron pob un yn datblygu perthynas gadarnhaol gyda'r ymarferwyr, sy'n caniatáu iddynt ymdopi'n dda gyda phrofiadau newydd. Mae'r rhan fwyaf o blant yn ymateb yn dda i ganmoliaeth, gyda llawer yn dangos balchder tuag at eu gwaith ac maent yn awyddus i rannu eu llwyddiannau. Er enghraifft, maent yn derbyn canmoliaeth am aros a chymryd tro wrth chwarae gem fwrdd. Mae bron pob un plentyn yn gyfarwydd â'r trefniadau dyddiol ac yn cydymffurfio'n aeddfed gyda'r gweithdrefnau, fel gosod eu henw yn y man priodol wrth ddewis sut maent yn teimlo heddiw.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn cymdeithasu'n fodlon, ac yn barod i rannu teganau ac adnoddau. Maent yn cymryd eu tro gyda'u ffrindiau yn synhwyrol. Er enghraifft, maent yn hapus i aros tro a chydweithio wrth chwarae yn y twb tywod. Maent yn sgwrsio'n hapus, yn helpu ei gilydd i lenwi'r cwpanau ac yn disgwyl i droi'r cwpan yn ofalus i geisio creu castell. Yn ystod amser byrbryd ac amser cinio, mae plant yn cymdeithasu gyda'i gilydd yn naturiol ac yn hapus wrth sgwrsio gyda eu ffrindiau ac ymarferwyr.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu. Maent yn canolbwyntio a dyfalbarhau'n ddiwyd wrth fynd i'r afael â thasgau ac yn mwynhau arbrofi gydag offer a deunyddiau gwahanol. Er enghraifft, mae plant yn mwynhau creu draenog gan wasgu'r darnau o sbageti i mewn i'r clai i greu draenog pigog. Mae bron pob plentyn yn chwilfrydig ac yn mwynhau chwarae a defnyddio eu dychymyg. Er enghraifft, maent wrth eu bodd yn chwarae rôl milfeddyg wrth osod rhwymyn ar goesau'r anifeiliaid meddal.

Mae bron pob plentyn yn dewis gweithgareddau yn ôl eu diddordebau ac yn datblygu medrau annibynnol da. Er enghraifft, maent yn ceisio gwisgo cotiau yn annibynnol cyn dewis mynd allan i chwarae. Yn ogystal, yn ystod amser byrbryd, mae bron pob plentyn yn awyddus i olchi dwylo ac yn rhoi'r gwastraff yn y bin bwyd o'u platiau yn annibynnol.

## Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):

Nid oes adroddiad ar ddysgu'r plant. Y rheswm am hyn yw nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol adeg yr arolygiad nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir yn rhywle arall i allu adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

## Gofal a datblygiad: Da

Mae'r ymarferwyr yn blaenoriaethu diogelwch a goruchwyliaeth yn barhaus. Maent yn rhoi gweithdrefnau effeithiol ar waith er mwyn sicrhau bod y plant yn iach ac yn ddiogel. Mae'r ymarferwyr yn ymwybodol o'r gweithdrefnau i'w dilyn os oes pryderon am les y plant. Mae pob un ohonynt wedi cwblhau hyfforddiant diogelu a hyfforddiant cymorth cyntaf pediatreg a hylendid bwyd. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd da o weithdrefnau cyfredol er mwyn atal lledaenu heintiau; er enghraifft, mae ymarferwyr yn annog plant i olchi eu dwylo cyn bwyta. Maent yn sicrhau bod byrddau'n cael eu glanhau'n drwyadl gyda hylif diheintio cyn i blant eistedd a bwyta. Maent yn dilyn gweithdrefnau hylendid addas ar gyfer newid cewyn a pan mae ymarferwyr yn paratoi bwyd i blant.

Mae'r ymarferwyr wedi ffurfio perthynas gadarn â'r plant. Maent yn garedig, yn ofalgar ac yn ymateb yn feddylgar i anghenion a diddordebau'r plant. Mae ymarferwyr yn defnyddio strategaethau cyson i hybu ymddygiadau cadarnhaol yn unol â'r polisi. Maent yn annog y plant i fod yn ofalus wrth ddringo ac yn trafod a mesur gyda'r plant wrth iddynt fesur risgiau. Mae'r ymarferwyr yn annog datblygiad medrau cymdeithasol y plant yn effeithiol drwy fanteisio ar sgyrsiau difyr am yr amgylchedd lleol neu am aelodau eu teulu. Mae'r ymarferwyr yn fodelau rôl cadarnhaol. Maent yn annog plant i ofyn yn gwrtais ac i ddweud diolch pan fo'r angen. Mae ymarferwyr yn canmol y plant yn barhaus wrth iddynt helpu i dacluso a chyflawni tasgau.

Mae gan y lleoliad drefniadau pwrpasol er mwyn adnabod a chefnogi anghenion unigol y plant, ac mae'r ymarferwyr yn cydnabod eu diddordebau ac anghenion datblygiadol. Maent yn diwallu eu camau nesaf drwy chwarae ac ymestyn eu profiadau archwilio a darganfod. Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd priodol i blant ddysgu am ddathliadau a gwyliau Cymreig fel dydd Gŵyl Dewi a diwrnod Santes Dwynwen. Maent yn sicrhau bod rhai adnoddau megis doliau a llyfrau a'r gael sy'n cynrychioli pobl o gefndiroedd gwahanol, ond prin yw'r cyfleoedd i blant ddysgu am y byd ehangach, ac amrywiaeth o diwylliannau eraill.

## Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o ddatblygiad plant. Maent yn dilyn diddordebau'r plant yn fedrus gan gynllunio profiadau newydd iddynt mewn ymateb i'w chwarae. Maent yn dathlu cynnydd plant yn effeithiol drwy arddangos eu gwaith marcio cynnar drwy'r lleoliad. Mae'r ymarferwyr yn hybu annibyniaeth y plant trwy eu hannog i ymchwilio a chwarae y tu fewn ac yn yr awyr agored. Mae hyn yn cynyddu hyder y plant wrth iddynt ddewis ble i chwarae. Mae cydbwysedd da rhwng ymarferwyr yn gwahodd plant i chwarae a galluogi'r plant i wneud dewisiadau ynghylch ble yr hoffent chwarae. Mae ymarferwyr yn sicrhau cyfnodau hir o chwarae di-dor, sy'n caniatáu amser i blant ymgolli yn eu dysgu. O ganlyniad, mae'r plant yn ymgysylltu'n dda gyda chyfleoedd dysgu ac yn dilyn eu diddordebau.

Mae ymarferwyr yn angerddol am yr iaith Gymraeg ac yn fodelau ieithyddol cadarn. Maent yn chwarae'n fwriadus gyda phlant i ddatblygu iaith. Er enghraifft, maent yn annog plant i ganu rhigymau Cymraeg wrth chwarae offerynnau a chyflwyno geirfa a chwestiynau pwrpasol wrth baratoi cacen ben-blwydd.

Mae ymarferwyr yn cynllunio profiadau pwrpasol sy'n helpu plant i ddeall eu cymuned leol. Maent yn trefnu ymweliadau i fferm leol i balu am bwmpenni ac yn defnyddio cynllun map o'r gymuned gyda enwau ffermydd cyfarwydd. Mae hyn yn meithrin ymdeimlad o berthyn ac yn cyfoethogi dealltwriaeth y plant o'u hamgylchedd. Mae'r lleoliad yn trefnu ymweliadau ystyrlon gan aelodau'r gymuned, fel nyrs, heddlu a milfeddyg, sy'n cynnig profiadau cyffrous i'r plant. Maent yn meithrin medrau moesol ac ysbrydol y plant drwy gynnig profiadau cyfoethog sy'n eu cysylltu â'r gymuned leol. Er enghraifft, maent yn trefnu ymweliadau i ddigwyddiadau megis sioeau yn y capel.

Mae'r lleoliad yn cynllunio cyfleoedd pwrpasol i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a chorfforol plant yn llwyddiannus. Maent yn sicrhau bod plant yn dewis llyfrau ac yn cael mynd â nhw gartref er mwyn hybu eu medrau darllen cynnar. Maent yn darparu adnoddau ymarferol fel ffonau symudol i annog sgwrsio, cloriannau i ymchwilio pwysau ac amrywiaeth o feiciau i gryfhau medrau modur bras. Mae'r amgylchedd wedi'i gynllunio'n fwriadus gyda adnoddau sy'n ysgogi dychymyg ac yn cefnogi datblygiad eang o fedrau. Er enghraifft, mae'r gegin fwd yn cynnwys potiau a chasgliadau mesur i hyrwyddo syniadau mathemategol a chydweithio, tra bod yr ardal fewnol yn cynnwys adnoddau creadigol fel ysbyty ar gyfer chwarae rôl, sy'n helpu plant i feithrin medrau cymdeithasol ac empathi.

Mae ymarferwyr yn defnyddio dulliau arsylwi ac asesu effeithiol sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at gynllunio'r dysgu. Ar sail yr arsylwadau hyn, maent yn dechrau trefnu profiadau pwrpasol i adeiladu ar ddatblygiad plant ac i symud y dysgu yn ei flaen yn effeithiol. Er enghraifft, ar ôl sylwi bod plant yn mwynhau chwarae yn y dŵr, maent yn

cynllunio cyfleoedd pwrpasol i olchi tractorau. Maent yn gwrando ar lais y plant ac yn cadw cofnodion pwrpasol. Mae hyn yn arwain at brofiadau dysgu mwy perthnasol ac ystyrlon sy’n cefnogi cynnydd unigolion yn effeithiol. Yn yr arfer orau, mae ymarferwyr yn caniatáu digon o amser i blant chwarae a cheisio datrys problemau drostynt eu hunain. Fodd bynnag, ar adegau, mae ymarferwyr yn ymyrryd yn rhy gyflym sy’n atal plant rhag datblygu dycnwch a’r medrau datrys problemau sydd angen arnynt i fod yn ddysgwyr annibynnol.

### Yr amgylchedd:  Da

Mae arweinwyr yn blaenoriaethu diogelwch plant trwy ddarparu gweithdrefnau sy’n sicrhau bod unrhyw beryglon yn cael eu hadnabod, eu monitro a’u rheoli’n effeithiol. Maent wedi llunio asesiadau risg trylwyr sy’n amlinellu peryglon posibl a’r camau sydd wedi eu cymryd i leihau neu atal y risg i blant. Maent hefyd yn gwirio’r dogfennau hyn yn gyson, ac yn cwblhau asesiadau ychwanegol ar gyfer unrhyw weithgareddau newydd. Mae’r ymarferwyr yn cwblhau gwiriadau dyddiol o’r ardaloedd chwarae, teganau ac adnoddau ac yn cadw cofnod o unrhyw gamau pellach sydd angen eu dilyn.

Mae’r arweinwyr yn ymateb yn brydlon i faterion yn gysylltiedig â diogelwch y plant ac i unrhyw achos sy’n codi. Er enghraifft, maent yn monitro ac ymarfer driliau tân yn gyson er mwyn sicrhau bod y plant yn gyfarwydd â’r trefniadau i’w dilyn pe bai rheswm iddynt adael yr adeilad ar frys. Mae’r adeilad yn cael ei gynnal yn dda ac mae’r gwiriadau diogelwch yn cael eu cwblhau’n rheolaidd. Mae’r ymarferwyr yn wyliadwrus wrth orchwylio plant yn ofalus er mwyn sicrhau eu diogelwch y tu mewn a thu allan.

Mae’r ystafell chwarae yn gyfforddus a chysurus ac mae digon o le i blant symud o gwmpas yn rhwydd. Mae arweinwyr yn sicrhau bod plant yn cael ymdeimlad o berthyn trwy arddangos esiamplau o’u gwaith ar y waliau, gan gynnwys hunanbortread o’r plant a brasluniau o ardaloedd y pentref. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod yr ystafell chwarae yn cynnig ystod eang o weithgareddau ac adnoddau ysgogol a chyffrous sy’n cyfoethogi profiadau’r plant yn llwyddiannus. Er enghraifft, ceir ardal baentio, llyfrau darllen, ardaloedd marcio a chwarae toes, ac mae’r rhain yn ysgogi plant i ddefnyddio’u dychymyg. Mae’r ardal tu allan yn gaeedig ac yn cynnig profiadau chwarae yn y gegin fwd, twba tywod a dŵr. Yn ogystal â hyn, maent yn defnyddio ardal laswelltog ffug ar gyfer reidio beics a chwarae peli.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr ystod eang o adnoddau yn lân ac o ansawdd da. Maent yn cael eu storio ar lefel isel er mwyn galluogi’r plant i ddewis yn annibynnol heb ymyrraeth oedolyn. Mae arweinwyr yn darparu ystod effeithiol o adnoddau ‘go iawn’. Er enghraifft, mae’r plant yn chwarae gyda llestri ac offer coginio yn y gegin fwd ac yn esgus siarad ar y ffôn gyda’u ffrindiau.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae arweinwyr yn darparu cyfeiriad clir ac yn gweithio'n bwrpasol i wella'r ddarpariaeth. Maent yn diweddaru polisïau'n briodol ac yn sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion statudol, gan gynnal cofnodion manwl megis cofrestri presenoldeb a dogfennau hanfodol. Mae ethos y lleoliad yn hyrwyddo cydweithio effeithiol, gyda staff yn cyflawni eu dyletswyddau'n ddiogel ac yn broffesiynol. Mae eu gweledigaeth glir yn sicrhau amgylchedd ddiogel sy'n canolbwyntio ar ddatblygiad plant.

Mae arweinwyr yn cydweithio'n effeithiol gyda'r Awdurdod Lleol i adnabod cryfderau'r lleoliad ac unrhyw feysydd i'w datblygu. Mae ganddynt brosesau cynhwysfawr sy'n llywio cynllunio gwelliant yn effeithiol. Mae arweinwyr yn sicrhau ystyriaeth i farnau'r holl staff, rhieni a gofalwyr ac asiantaethau allanol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar greu newidiadau pwrpasol er lles y plant. Mae cyfarfodydd staff misol yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i rannu syniadau ac mae arweinwyr yn gwneud defnydd da o fedrau personol ymarferwyr i gyfoethogi'r ddarpariaeth.

Mae arweinwyr yn defnyddio grantiau addysg yn effeithiol i gefnogi datblygiad proffesiynol staff. Maent yn darparu cyfleoedd pwrpasol i fynychu hyfforddiant hanfodol megis diogelu, cymorth cyntaf a hylendid bwyd, yn ogystal â hyfforddiant cwricwlaidd. Maent yn trefnu ymweliadau gwerthfawr â lleoliadau eraill ac yn gwahodd lleoliadau eraill i'r cylch er mwyn rannu arfer effeithiol. Mae hyn yn helpu arweinwyr ac ymarferwyr i gryfhau eu dealltwriaeth o'r cwricwlwm. Mae goruchwyliaeth a gwerthusiadau rheolaidd yn sicrhau bod staff yn cael cefnogaeth barhaus. Mae arweinwyr yn dyrannu adnoddau a dyletswyddau yn effeithiol sy'n creu amgylchedd lle mae staff yn teimlo'n hyderus, yn hapus ac yn derbyn cefnogaeth dda.

Mae arweinwyr yn meithrin partneriaeth gref gyda rhieni a gofalwyr gan sicrhau cyfathrebu agored. Maent yn cynnig sesiynau defnyddiol i hwyluso cyfnodau ymgartrefu ac yn dangos hyblygrwydd sydd yn sicrhau pontio esmwyth. Mae rhieni'n gwerthfawrogi ethos gartrefol y lleoliad a natur groesawgar y staff, sy'n creu amgylchedd diogel a chynhwysol i blant a theuluoedd. Mae gan arweinwyr ddull cyfathrebu effeithiol drwy grŵp preifat ar gyfryngau cymdeithasol. Maent yn rhannu lluniau a gwybodaeth ddefnyddiol sy'n helpu rhieni i drafod profiadau'r plant. Mae digwyddiadau fel cyngerdd Nadolig, mabolgampau a phartïon cymunedol yn creu cyfleoedd gwerthfawr i deuluoedd gysylltu a chryfhau perthnasoedd. Mae cysylltiadau priodol gyda'r ysgol leol yn cefnogi pontio, a helpu plant i symud yn ddeallus i'r cam nesaf o'u haddysg.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol/Prysg (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 16/01/2026